Senedd Cymru

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Cronfa Twf Lleol

Chwefror 2026




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddEconomi@senedd.cymru**
X: **@SeneddEconomi**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Cronfa Twf Lleol

Chwefror 2026

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Andrew RT Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru

---

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion a Casgliadau** .......... **7**

**1. Cefndir** .......... **9**

Cyllid .......... 11

Trefniadau cyflawni .......... 12

Gwaith y Pwyllgor ar y Gronfa .......... 13

Geirfa .......... 13

**2. Rôl Llywodraeth y DU** .......... **15**

Ein barn ni .......... 16

**3. Heriau a chyfleoedd y Gronfa Twf Lleol** .......... **18**

Rhaniad cyfalaf a refeniw .......... 18

Cyflawni prosiectau cyfalaf effeithiol mewn amserlen fer .......... 21

Cyflawni uchelgeisiau'r gronfa .......... 23

Ein barn ni .......... 23

**4. Cyflwyno'r Gronfa** .......... **26**

Lefelau cyflwyno .......... 26

Risg o ddwy raglen .......... 29

Rôl y Cyd-bwyllgorau Corfforedig .......... 29

Ein barn ni .......... 31

**5. Targedu cyllid i sicrhau'r effaith fwyaf posibl** .......... **33**

Heriau gwledig .......... 33

Dosbarthu cyllid .......... 34

Ein barn ni .......... 36

**Atodiad 1 : Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ........................................ 37**

**Atodiad 2 : Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol ............... 38**

# Rhagair y Cadeirydd

Pan oeddem yn casglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn, clywsom fod Cymru ar fin cyrraedd 'canmlwyddiant cythreulig'. Hynny yw, ers tua 100 mlynedd rydym wedi bod yn profi dirywiad economaidd cymharol. Mae'r dirywiad economaidd hwnnw wrth wraidd cynifer o heriau eraill yr ydym yn eu hwynebu fel cenedl, ac mae angen i hyn fod y flaenoriaeth bennaf i lywodraeth nesaf Cymru.

Er na fydd y Gronfa Twf Lleol yn adfer ein heconomi ar ei phen ei hun, yn enwedig gan ei bod gymaint yn llai na'r cronfeydd y mae'n eu disodli, mae angen i'r Gronfa fod yn ddull allweddol o hyrwyddo datblygiad economaidd. Fodd bynnag, mae gan y Pwyllgor bryderon difrifol ynghylch strwythurau'r Gronfa a'r cynllun ar gyfer ei gweithredu. Mae'r adroddiad hwn yn gwneud saith argymhelliad a fydd, os cânt eu rhoi ar waith, yn helpu i gywiro'r problemau hynny ac yn cefnogi'r Gronfa i gyflawni rôl hanfodol o ran cefnogi datblygiad economaidd a chymdeithasol yn rhai o'n cymunedau sydd fwyaf agored i niwed.

Mae gennym bryderon ynghylch rôl bosibl Llywodraeth y DU yn y Gronfa. Er ein bod yn gobeithio y bydd y ddwy Lywodraeth yn cydweithio'n dda ac y bydd y gwaith cydweithredol hwn yn dwyn ffrwyth economaidd, mae datblygu economaidd yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Dylai Llywodraeth Cymru, felly, fod yn atebol i'r Senedd yn bennaf, nid Llywodraeth y DU, am ei pherfformiad wrth gyflwyno'r Gronfa.

Rydym yn anfodlon ar y pwyslais y mae'r Gronfa yn ei roi ar gyfalaf. Clywsom y bydd prosiectau cyfalaf yn anodd eu cyflawni o fewn yr amserlen o dair blynedd, a bod risg wirioneddol i swyddi pobl a gyflogir ar hyn o bryd drwy gyllid refeniw o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae gennym bryderon difrifol am y potensial y gellid colli nifer sylweddol o swyddi, yn ogystal â cholli sgiliau a phrofiad gweithwyr.

Rydym o'r farn bod yn rhaid targedu'r Gronfa i sicrhau bod yr arian yn sbarduno'r datblygiad mwyaf posibl. Yn aml mae tuedd i wario arian cyhoeddus lle bydd yr arian hwnnw yn creu'r effaith economaidd fwyaf, ond dyna fel arfer lle mae'r farchnad eisoes yn darparu swyddi, twf a ffyniant cymharol. Rwy'n cydymdeimlo â'r dull hwnnw. Fodd bynnag, o ystyried diben arfaethedig y Gronfa hon, mae angen ei thargedu lle bydd yn creu'r canlyniadau gorau o ran datblygiad. Hynny yw, ble mae'r farchnad yn methu a lle gall gynhyrchu twf economaidd ystyrlon a chynaliadwy, ond hefyd twf cymdeithasol a chymunedol.

Yn olaf, mae gennym bryderon sylweddol ynghylch gallu Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gyflawni elfen ranbarthol y Gronfa. Mewn gwaith blaenorol y mae'r Pwyllgor wedi'i wneud ar Fargeinion Twf Dinesig a Rhanbarth, rydym wedi bod yn anfodlon ar sut y mae rhai Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi gweithredu'r rhaglenni hynny. Er nad wyf am feirniadu pob Cyd-bwyllgor Corfforedig yn yr un modd, mae'n hanfodol nad yw'r Gronfa Twf Lleol yn mynd ar yr un trywydd â'r Bargeinion Twf sy'n perfformio waethaf.

Hoffwn ddiolch i bawb a wnaeth roi o'u hamser i roi tystiolaeth i'r ymchwiliad hwn. Rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, sy'n deillio o'r dystiolaeth honno, ac y gall y Gronfa Twf Lleol gael rôl o ran sicrhau mai dyma'r canmlwyddiant cythreulig olaf y bydd yn rhaid inni ei nodi.

**Andrew RT Davies AS**
Cadeirydd

# Argymhellion a Chasgliadau

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ddefnyddio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y maent yn ei ddatblygu ar hyn o bryd mewn perthynas â'r Gronfa Twf Lleol i egluro rôl Llywodraeth y DU wrth adolygu cynnydd blynyddol mewn perthynas â'r Gronfa, a chadarnhau na fydd hyn yn effeithio ar rôl Llywodraeth Cymru o ran gwneud penderfyniadau. Dylai'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hefyd amlinellu mai'r Senedd sy'n bennaf gyfrifol am weithredu'r Gronfa. ........ Tudalen 17

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i ddiwygio'r rhaniad rhwng cyfalaf a refeniw o blaid cynyddu gwariant refeniw ar ddechrau'r Gronfa Twf Lleol er mwyn sicrhau pontio gwell. ........ Tudalen 25

**Argymhelliad 3.** O ystyried nad yw Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn bwriadu symud ar raniad refeniw-cyfalaf y cyllid, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r camau penodol y mae'n eu cymryd i weithio gydag awdurdodau lleol i leihau colli swyddi, sy'n deillio o ganlyniad i symud o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i'r Gronfa Twf Lleol ac i gadw arbenigedd, sgiliau a chof sefydliadol ynghylch datblygu economaidd........ Tudalen 25

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r her meddwl greadigol ynghylch yr hyn y gellid gwario'r cyllid arno a sicrhau y gellir gwneud buddsoddiadau cyfalaf da mewn offer, adeiladau a safleoedd. Fodd bynnag, rhaid i nod cyffredinol gwariant y Gronfa Twf Lleol fod i yrru twf cymdeithasol ac economaidd trwy ddatblygu economaidd cynaliadwy. ........ Tudalen 25

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cyfres o dargedau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer y Gronfa, yn seiliedig ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol clir a mesuradwy. Dylai hefyd ddatblygu fframwaith cadarn ar gyfer mesur cynnydd. ........ Tudalen 25

**Argymhelliad 6.** Mae gan y Pwyllgor bryderon difrifol ynghylch gallu Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gyflwyno'r Gronfa Twf Lleol. Mae hyn oherwydd ein gwaith blaenorol yn datgelu diffygion mawr o ran cyflawniad rhai Cyd-bwyllgorau Corfforedig o raglenni datblygu economaidd eraill. Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried yn gryf unrhyw fodelau amgen a awgrymir yn yr ymgynghoriad cyhoeddus fel dewis arall yn lle defnyddio Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar gyfer cyflawni ranbarthol. Gan nad yw'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi profi eu gallu i

gyflawni rhaglenni economaidd mewn ffordd sy'n mynd i'r afael ag amddifadedd economaidd eto, os bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio fel y dull ar gyfer cyflwyno elfennau rhanbarthol y gronfa, bydd angen goruchwyliaeth a chyfarwyddyd ychwanegol ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig i sicrhau eu bod yn datblygu dulliau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ardaloedd o amddifadedd, ac nid canolbwyntio ar 'enillion hawdd'. Fel rhan o hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y gellir monitro eu perfformiad yn effeithiol drwy asesu eu cynnydd yn rheolaidd yn erbyn canlyniadau pendant, mesuradwy.......................................... Tudalen 32

**Argymhelliad 7.** Wrth ddatblygu ei dull o ddyrannu cyllid, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid yn cael ei gyfeirio at y mannau lle mae'r angen mwyaf dybryd, a dylai roi arwydd clir i'r rhai sy'n darparu cyllid mai dyma'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Dylai Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru chwarae rhan allweddol yn y fethodoleg ar gyfer dyrannu cyllid ar lefel ranbarthol, yn ogystal â sicrhau bod dyraniadau'n cefnogi ardaloedd gwledig o amddifadedd. Dylid defnyddio'r Mynegai hefyd i helpu i olrhain cynnydd a chanlyniadau buddsoddiadau'r Gronfa Twf Lleol............................................................................................Tudalen 36

**Casgliad 1.** Rydym yn siomedig gyda'r gostyngiad mawr yn y cyllid y bydd Cymru yn ei gael drwy'r Gronfa Twf Lleol o'i gymharu â'r cynlluniau datblygu economaidd blaenorol gan fod hyn yn golygu y bydd llai o arian i gefnogi a buddsoddi yn ein cymunedau sydd fwyaf agored i niwed. ..................................................................................Tudalen 12

# 1. Cefndir

Dywedodd yr Athro Kevin Morgan wrth y Pwyllgor ein bod ar fin agosáu at yr hyn y byddai'n ei alw'n ganmlwyddiant cythreulig, sef canrif o ddirywiad economaidd cymharol. Aeth ymlaen i egluro bod angen i Gymru, er mwyn cywiro hyn, fwrw ati o ddifri i weithredu gyda gweledigaeth fawr ar gyfer datblygiad, nid twf economaidd yn unig.[1]

**1.** Mae'r Gronfa Twf Lleol yn gronfa datblygu economaidd newydd a grëwyd gan Lywodraeth y DU. Dyma'r fersiwn ddiweddaraf o gynllun i lenwi bwlch cyllid datblygu'r UE, a bydd yn gweithredu ledled y DU.[2] Bydd Cymru yn cael £547 miliwn o'r gronfa eleni a dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Er bod yr Aelodau'n cydnabod na fydd y cyllid hwn ar ei ben ei hun yn datrys y 'ganrif o ddirywiad', mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen iddo fod â rôl allweddol o ran pennu a chyflawni'r 'weledigaeth fawr' honno a dod â datblygiad a thwf economaidd i ardaloedd sydd ei angen fwyaf.

**2.** Y Gronfa Twf Lleol yw olynydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ond mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i bwysleisio na ddylid ei ystyried yn barhad o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Yn lle hynny, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio (Ysgrifennydd y Cabinet) wrth y Pwyllgor ei fod yn gronfa sydd yno i roi hwb i'r gwaith o gyflawni'r strategaeth ddiwydiannol a datblygiad economaidd ehangach.[3]

**3.** Mae Llywodraeth y DU wedi nodi tair thema eang ar gyfer y Gronfa:

- Cymorth i fusnesau;
- Cymorth sgiliau a chyflogaeth er mwyn ysgogi twf; a

[1] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 18/12/25 Paragraff 9
[2] Er y bydd y gronfa ar waith ledled y DU, mae trefniadau gwahanol ar gyfer ei chyflwyno ar draws pob cenedl.
[3] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 29/01/26 Paragraff 348

- Galluogi twf seilwaith lleol.[4]

**4.** Prif amcan Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa Twf Lleol yw "[c]efnogi twf cynhyrchiant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd ledled Cymru". Mae wedi cynnig nifer o amcanion strategol ar gyfer y tair thema eang, ond mae ei ymgynghoriad yn nodi'r hyn a ganlyn:

> *"Hyd yn oed gyda set gulach o amcanion, bydd yr angen am flaenoriaethu a chydlynu cyllid sydd ar gael yn golygu na fydd pob gweithgaredd yn digwydd ym mhobman. Bydd gan bob rhanbarth anghenion a chyfleoedd lleol a rhanbarthol gwahanol, a bydd angen i bob un flaenoriaethu i wneud y mwyaf o effeithiau cronnus."*[5]

**5.** Bydd gan Lywodraeth Cymru rôl lawer mwy mewn penderfyniadau a gwaith gweinyddol y Gronfa Twf Lleol na'r hyn yr oedd ganddi gyda'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru yn nodi:

> *"Mae'r pwerau i wneud penderfyniadau ynghylch cyllid ers gadael yr UE wedi dod 'nôl i Lywodraeth Cymru. Felly cawn benderfynu gyda'n partneriaid yng Nghymru sut i'w wario yng Nghymru. Ochr yn ochr â mentrau ar y cyd fel y Bargeinion Dinesig a Thwf, Porthladdoedd Rydd a Pharthau Buddsoddi, mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'i gilydd i sbarduno twf ac i gyflawni dros Gymru."*[6]

**6.** Ym mis Tachwedd 2025, agorodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad chwe wythnos ar gynigion ar gyfer y Gronfa Twf Lleol newydd. Dywedodd fod hyn er mwyn sicrhau ei bod yn barod i weithredu'r gronfa hon o fis Ebrill 2026 ymlaen.

**7.** Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi cronfa Balchder Bro, a fydd yn darparu £280 miliwn o gyllid i 14 o gymunedau ledled Cymru. Mae Llywodraeth y DU yn honni y bydd hyn yn galluogi pobl leol i wneud penderfyniadau ynghylch

[4] Llywodraeth Cymru, Cynigion o ran dull gweithredu ar gyfer Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru
[5] Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Cynigion ar gyfer cyflwyno Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru
[6] Llywodraeth Cymru, Cynigion o ran dull gweithredu ar gyfer Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru

sut y bydd cyllid yn trawsnewid strydoedd mawr, yn achub cyfleusterau lleol gwerthfawr ac yn meithrin balchder yn eu hardal leol.[7]

**8.** Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi cyfarwyddo awdurdodau lleol i ddewis un ardal yn unig i gael yr arian hwn yn hytrach na chaniatáu iddynt benderfynu sut i gael yr effaith fwyaf posibl o'r buddsoddiad hwn. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y ffordd y mae Llywodraeth y DU yn gweithio'n uniongyrchol gydag Awdurdodau Lleol, gan hepgor Llywodraeth Cymru o'r broses, yn debyg i'r dull a ddefnyddiwyd gyda'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae gan y Pwyllgor bryderon bod y cyllid a ddyrannwyd i'r rhaglen wedi'i dynnu o'r gwariant cyffredinol ar dwf lleol, ac yn credu y dylid bod wedi cynnwys hyn yn y Gronfa Twf Lleol.

## Cyllid

**9.** Mae Llywodraeth y DU yn darparu £547 miliwn i Gymru ar gyfer y Gronfa Twf Lleol rhwng 2026-27 a 2028-29, sydd tua £182 miliwn y flwyddyn. Mae hyn yn llai na'r hyn a gafwyd o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chronfeydd Strwythurol yr UE.

**10.** Roedd Llywodraeth Cymru wedi galw am i Gymru gael yr uchaf o naill ai 22.5% o gyfanswm dyraniad y DU ar gyfer y Gronfa, neu £343 miliwn y flwyddyn wedi'i uwchraddio ar gyfer chwyddiant drwy'r Gronfa Twf Lleol. Dyma lefel flynyddol y cyllid sydd ei hangen i gynnal neu ragori ar y cyllid sydd wedi dod drwy Gronfeydd Strwythurol yr UE wedi i chwyddiant gael ei ystyried.[8]

**11.** Mae'r Gynghrair Cymunedau Diwydiannol (ICA), sy'n cynrychioli awdurdodau lleol mewn ardaloedd diwydiannol ledled Prydain, yn cyfrifo bod y cyllid blynyddol y bydd Cymru'n ei gael drwy'r Gronfa Twf Lleol wedi cael ei leihau bron i hanner o'i gymharu â lefel y cyllid a gafodd Cymru drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn 2024-25.[9]

**12.** Yn 2023 cynhaliodd y Pwyllgor hwn ymchwiliad i gyllid datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE. Ymhlith pethau eraill, adolygodd yr anghydfod ar y pryd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch a oedd Llywodraeth y DU wedi cyflawni ei hymrwymiad maniffesto i roi cyllid a oedd o leiaf yn cyfateb i'r hyn yr oedd Cymru yn ei gael drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfeydd Datblygu

[7] Gov.uk £214m new funding for Welsh communities to improve neighbourhoods and restore pride (Saesneg yn unig)
[8] www.llyw.cymru: Cyfarfod y Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, 10 Ebrill 2025: cofnodion
[9] Cynghrair Cymunedau Diwydiannol, A briefing note: The UK Government's new neighbourhood initiatives, Hydref 2025 (Saesneg yn unig)

Rhanbarthol Ewrop.[10] Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod addewid wedi'i wneud gan Lywodraeth flaenorol y DU a bod anghytundebau ynghylch a gafodd ei gyflawni, mae'r Aelodau'n siomedig nad yw'r ymrwymiad wedi'i gadw ar gyfer y Gronfa Twf Lleol.

**Casgliad 1.** Rydym yn siomedig gyda'r gostyngiad mawr yn y cyllid y bydd Cymru yn ei gael drwy'r Gronfa Twf Lleol o'i gymharu â'r cynlluniau datblygu economaidd blaenorol gan fod hyn yn golygu y bydd llai o arian i gefnogi a buddsoddi yn ein cymunedau sydd fwyaf agored i niwed.

## Trefniadau cyflawni

**13.** Llywodraeth Cymru fydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros reoli'r Gronfa Twf Lleol yng Nghymru, a bydd yn atebol i Lywodraeth y DU ac i'r Senedd am ei pherfformiad o ran ei rheoli. Bydd cyllid yn cael ei ryddhau bob blwyddyn gan Lywodraeth y DU, yn amodol ar broses adolygu flynyddol. Bydd hyn yn newid y broses o'r trefniadau presennol o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin, lle mae Llywodraeth y DU wedi gweithio'n uniongyrchol ag awdurdodau lleol, gan osgoi Llywodraeth Cymru.[11]

**14.** Bwriad Llywodraeth Cymru yw y caiff y mwyafrif o'r Gronfa Twf Lleol ei chynllunio, ei blaenoriaethu a'i rheoli ar lefel ranbarthol, er nad yw'r cydbwysedd rhwng cyllid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wedi'i benderfynu eto. Mae'n bwriadu cefnogi'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig i arwain y gwaith hwn, yn dilyn cyfnod pontio lle mae'n disgwyl defnyddio strwythurau cyflawni presennol y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Byddai cyllid yn cael ei ryddhau ar ôl i Gyd-bwyllgor Corfforedig ddatblygu gweledigaeth deng mlynedd a chynllun cyflawni tair blynedd, a bydd angen cytuno ar y rhain gyda Llywodraeth Cymru.[12]

**15.** Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd angen iddi ddefnyddio strwythurau presennol y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer blwyddyn gyntaf y Gronfa Twf Lleol, ac yn dweud "Ein blaenoriaeth fydd cadw capasiti a gallu mewn meysydd sy'n cefnogi amcanion Cyllid Twf Lleol tra bod cynlluniau rhanbarthol yn cael eu datblygu". Bydd yn gweithio gyda phartneriaid i gytuno ar feysydd lle mae ymyriadau presennol yn "ychwanegu gwerth, nad ydynt yn dyblygu darpariaeth

[10] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Adroddiad Cyllid datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE
[11] Llywodraeth Cymru, Cynigion o ran dull gweithredu ar gyfer Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru
[12] Llywodraeth Cymru, Cynigion o ran dull gweithredu ar gyfer Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru

bresennol neu ddarpariaeth arfaethedig, ac sy'n cyd-fynd â'n Cynllun Buddsoddi ar gyfer y Gronfa Twf Lleol", a bydd yn edrych ar sut y gellir cadw'r capasiti hwn. [13]

## Gwaith y Pwyllgor ar y Gronfa

**16.** Penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad byr i'r Gronfa Twf Lleol. Dyma oedd y cylch gorchwyl:

- Trefniadau arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllido a chyflawni'r Gronfa Twf Lleol o fis Ebrill 2026 ymlaen.
- I ba raddau y mae cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa Twf Lleol yn debygol o gyflawni ei hamcan o gefnogi twf cynhyrchiant a mynd i'r afael â materion sy'n arwain at anghydraddoldebau economaidd.
- P'un a ddylid newid unrhyw elfennau o gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa Twf Lleol, gan gynnwys pa elfennau y gallai'r rhain fod, a pham.
- Y prif wersi y gellir eu dysgu o drefniadau cyllido datblygu rhanbarthol blaenorol megis Cronfeydd Strwythurol yr UE a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. I ba raddau y mae cynigion Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gwersi hyn ar waith.

**17.** O ystyried yr amser sy'n weddill yn nhymor y Senedd hon, a'r amserlen dynn y penderfynodd Llywodraeth Cymru arni i gynllunio'r cronfeydd, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn casglu tystiolaeth undydd gyda rhanddeiliaid ar 18 Rhagfyr 2025. Clywodd yr Aelodau gan academyddion, awdurdodau lleol a busnesau. Yna clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet ar 29 Ionawr 2026.

**18.** Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn.

## Geirfa

| Acronym | Ystyr |
|---|---|
| LGF | Y Gronfa Twf Lleol |
| SPF | Cronfa Ffyniant Gyffredin – a gyflwynwyd gan Lywodraeth flaenorol y DU, hon oedd y brif raglen i gymryd lle Cronfa Datblygu Rhanbarthol yr UE. |

[13] Llywodraeth Cymru, Cynigion o ran dull gweithredu ar gyfer Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru

| Acronym | Ystyr |
| --- | --- |
| CJC | Cyd-bwyllgor Corfforedig – Mae pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig yng Nghymru. Fe'u sefydlwyd yn 2021 ac mae ganddynt bwerau tebyg i Awdurdodau Lleol. Mae ganddynt rôl mewn cynllunio rhanbarthol, cydlynu a darparu trafnidiaeth, cynllunio defnydd tir, datblygu economaidd ac ynni, ac maent yn cynnwys arweinwyr y cynghorau ac unrhyw awdurdodau parciau cenedlaethol yn eu rhanbarthau. |

# 2. Rôl Llywodraeth y DU

**19.** Llywodraeth Cymru fydd â chyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r Gronfa Twf Lleol yng Nghymru, ond bydd gan Lywodraeth y DU rôl hefyd o ran penderfynu ar gyfeiriad y Gronfa. Bydd Llywodraeth Cymru yn atebol i'r Senedd ar ei pherfformiad o ran rheoli'r Gronfa, a bydd yn atebol i Lywodraeth y DU drwy broses adolygu flynyddol.[14] Gan fod datblygu economaidd yn fater datganoledig, mae gan y Pwyllgor bryderon ynghylch faint o reolaeth fydd gan Lywodraeth y DU dros y Gronfa Twf Lleol.

**20.** Dywedodd y Cynghorydd Rob Stewart wrth y Pwyllgor ei fod yn teimlo bod gwersi wedi'u dysgu drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan ychwanegu:

> *"having an ability to align our programmes with what Welsh Government are doing at a national level and what UK Government are doing on a national level will be of benefit to all."*[15]

**21.** Nododd y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol fod Llywodraeth yr Alban wedi camu i un ochr gyda'r Gronfa Twf Lleol yn yr Alban, ac wedi dweud wrth Swyddfa'r Alban yn San Steffan y gallant ymdrin yn uniongyrchol â'r awdurdodau lleol gan nad yw Llywodraeth yr Alban am gael unrhyw gysylltiad â'r cynllun. Fodd bynnag, tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod swm y cyllid ar gyfer y cynllun yn llawer is yn yr Alban nag yng Nghymru.[16]

**22.** Amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet y berthynas ddisgwyliedig rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

> *"In terms of agreeing the returning of decision making, Welsh Government is the accounting officer for the £547 million fund, but the relationship that we have is broadly similar to the structural funds era. So, what it does mean is that there will be a very light-touch relationship, as compared to Europe, with the UK Government. The intention is to have an annual review with the UK Government, where we would share progress information on how the fund is delivered in*

---

[14] Llywodraeth Cymru, Cynigion o ran dull gweithredu ar gyfer Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru
[15] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 18/12/25 Paragraff 195
[16] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 18/12/25 Paragraff 118

> *Wales, again similar to the EU way of working, but also much more light touch and flexible."*[17]

**23.** Aeth ymlaen i esbonio:

> *"we're at the point at the moment of discussing a Memorandum of Understanding with the UK Government, and that will formalise arrangements to ensure that our expectations are aligned. But they are standard practice, where we are using UK Government wider programmes, so free ports, for example, investment zones. So, this is a wider UK Government programme, technically, even though we are having the funding returned to us as accounting officers, and the power to develop the schemes and the investment plans."*[18]

## Ein barn ni

Rydym yn croesawu bod pwerau i wneud penderfyniadau wedi'u dychwelyd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gronfa Twf Lleol. Rydym yn gwerthfawrogi bod Llywodraeth y DU yn darparu'r cyllid ar gyfer y Gronfa, a bod dull strategol cydgysylltiedig lle mae llywodraethau'n cydweithio yn gallu dwyn manteision.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol bod datblygu economaidd yn faes sydd wedi'i ddatganoli. Gan y bydd angen i Lywodraeth Cymru gael cymeradwyaeth Llywodraeth y DU drwy'r broses adolygu flynyddol cyn rhyddhau arian, mae gennym bryderon bod Llywodraeth y DU yn ceisio cael lefel annerbyniol o reolaeth dros y Gronfa. Hoffem gael sicrwydd y bydd y berthynas rhwng y ddwy lywodraeth yn 'ysgafn ac yn hyblyg' yn yr un modd ag y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i awgrymu, ac na fydd yn effeithio ar y cytundeb bod gan Lywodraeth Cymru y rôl benderfynu ar gyfer gweithredu'r Gronfa yng Nghymru.

Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn atebol i Aelodau o'r Senedd nesaf a'n Pwyllgor olynol mewn perthynas â'r Gronfa, nid i Lywodraeth y DU. Rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn datblygu

[17] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 29/01/26 Paragraff 337
[18] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 29/01/26 Paragraff 343

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â’r Gronfa, a hoffem i hyn roi eglurder ar y trefniadau, ac ymdrin â’n pryderon.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ddefnyddio’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y maent yn ei ddatblygu ar hyn o bryd mewn perthynas â’r Gronfa Twf Lleol i egluro rôl Llywodraeth y DU wrth adolygu cynnydd blynyddol mewn perthynas â’r Gronfa, a chadarnhau na fydd hyn yn effeithio ar rôl Llywodraeth Cymru o ran gwneud penderfyniadau. Dylai’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hefyd amlinellu mai’r Senedd sy’n bennaf gyfrifol am weithredu’r Gronfa.

# 3. Heriau a chyfleoedd y Gronfa Twf Lleol

## Rhaniad cyfalaf a refeniw

**24.** Un o ofynion Llywodraeth y DU ar gyfer y Gronfa Twf Lleol yng Nghymru yw y dylai 70 y cant o'r cyllid fod yn wariant cyfalaf gyda'r 30 y cant sy'n weddill yn refeniw. Mae hyn yn wahanol i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, lle roedd y rhan fwyaf o'r cyllid yn refeniw.[19]

**25.** Mae'r newid o gyllid refeniw yn bennaf i gyllid cyfalaf wedi cael ei feirniadu gan nifer o sefydliadau. Dywedodd y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol wrth y Pwyllgor:

> *"[the] split between capital and revenue spend, which is expected now for the next three years, is entirely impractical to put into place. It's been revised in favour of capital spend, in the three-year period, as opposed to revenue spend. The arrangement that was in place for the Shared Prosperity Fund, and has been operating and everybody's got used to that, was roughly 70 per cent revenue spending, 30 per cent capital spending. That has been completely turned around the other way and there are tremendous consequences to that."*

**26.** Mewn papur polisi rhybuddiodd y Gynghrair y byddai gan y newid ganlyniadau difrifol, gan gynnwys:

> - *"The destruction of most of the business support, training and employability services that have hitherto been supported by the UKSPF*
> - *The loss of hundreds of jobs across local authorities among staff employed to deliver these services"*[20]

**27.** Yn ddiweddarach, cyflwynodd y Gynghrair dystiolaeth bellach yn ailadrodd eu pryderon ynghylch y rhaniad cyfalaf/refeniw.[21]

---

[19] Gov.uk UK Shared Prosperity Fund: prospectus (Saesneg yn unig)
[20] Local Growth Funding: Major flaws in the current proposals for Wales (Saesneg yn unig)
[21] Tystiolaeth ychwanegol: Y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol

**28.** Dywedodd yr Athro Kevin Morgan wrth y Pwyllgor fod y newid o refeniw i gyfalaf yn creu risg y bydd arbenigedd awdurdodau lleol yn cael ei golli:

> *"They [local authorities] began to rebuild capacity under the Shared Prosperity Fund … because it was weighted towards revenue and it enabled them to hire people with skill sets to begin to deliver these policies. But now, I fear, with the reversal of the 70:30 split, these people are already being served with redundancy notices. And that's one of the tragedies in Wales. We've been doing this for 100 years, but we don't seem to have learned the lessons and built up expertise and learned from previous programmes. And if we lose these people now, we're losing all that learning capacity, so there's no institutional memory left."*[22]

**29.** Rhybuddiodd y Cynghorydd Rob Stewart:

> *"One of the challenges with the split that's been proposed in terms of revenue/capital is that we've got, across Wales, over 2,000 people employed on programmes that are supported through the current SPF programme, through the revenue that's provided. And obviously, as that gets converted to capital, unless there are some flexibilities within that, which I know ourselves and Welsh Government have asked UK Government to permit, then there could be some significant impacts."*
>
> *"it came as a surprise to all of us to see some greater flexibility in England than we've seen in Wales and the other devolved nations. So, that is something that we're pushing for parity on, because they do underpin employability programmes, programmes that help people into work and help us to bring forward people with skills into the workforce."*[23]

**30.** Roedd Cyllideb 2025 Llywodraeth y DU yn cynnwys datganiad polisi ar gyfer y Gronfa Twf Lleol yn Lloegr gyda threfniadau gwahanol ar gyfer refeniw a chyfalaf. Bydd y Gronfa yn Lloegr yn trawsnewid o tua 75 y cant o gyllid refeniw a 25 y cant

[22] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 18/12/25 Paragraff 48
[23] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18/12/25, Paragraff 138

o gyllid cyfalaf yn 2026-27 i tua 40 y cant o gyllid refeniw a 60 y cant o gyllid cyfalaf yn 2028-29.[24]

**31.** Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi nodi manylion ei chynlluniau ar gyfer ariannu'r Gronfa Twf Lleol yn yr Alban, lle bydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda Phartneriaethau Economaidd Rhanbarthol i weithredu'r gronfa yn hytrach na gyda Llywodraeth yr Alban. Mae'r rhaniad cyllido ar gyfer yr Alban yn debyg i'r hyn a gynigiwyd ar gyfer Cymru.[25]

**32.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor y byddai wedi ffafrio rhaniad yn debycach i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin:

> *"We would have preferred to have seen something more akin to the previous Shared Prosperity Fund, which was more revenue heavy, in that space. So, we've looked at things that we would learn from the past and tried to be mindful of that as we've developed the new programme we've consulted on as we go forward."*[26]

**33.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod wedi bod yn trafod y rhaniad gyda Llywodraeth y DU, gyda'r nod o ail-gydbwyso'r Gronfa, fodd bynnag nododd na chafwyd unrhyw gynnydd cadarnhaol yn y trafodaethau hynny:[27]

> *"We continue to make that case for a higher proportion of revenue. But those discussions aren't positive, shall we say. UK Government tells us that the capital focus is very much in line with its industrial strategy. They say it's being applied UK-wide, not just for Wales. And it goes without saying that the capital-heavy fund is going to be more problematic and more challenging."*
>
> *"On the capital/revenue split, it is the same as Scotland and Northern Ireland, but the situation in England is more complex. So, what the UK Government would say is that there's an allocation given directly to some mayoral strategic authorities and a £500 million capital-only recyclable investment fund involving regional allocations. And taken together, they would mean that England's MSAs also have roughly a*

[24] Gov.uk Local Growth Fund (England): policy statement (Saesneg yn unig)
[25] Gov.uk Local Growth Fund (Scotland): Place selection and allocation methodology note (Saesneg yn unig)
[26] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 29/01/26 Paragraff 320
[27] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 29/01/26 Paragraff 346

> *70 per cent/30 per cent capital/revenue split. So, that's the UK Government's explanation."*
>
> *"They also say very clearly that, actually, this is not a continuation of the Shared Prosperity Fund and it shouldn't be seen as such. Instead, it is a fund that is there to drive forward the delivery of the industrial strategy and wider economic development. So, we've tried to make the case strongly. I know our colleagues in local government are trying to do the same. But it doesn't appear to me that we're going to have any success, unfortunately."*[28]

## Cyflawni prosiectau cyfalaf effeithiol mewn amserlen fer

**34.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan nifer o dystion am yr heriau posibl sy'n gysylltiedig â chronfa tair blynedd sy'n cynnwys cyllid cyfalaf yn bennaf. Cawsant eu disgrifio gan Athro Kevin Morgan fel chwerthinllyd, o ystyried y nodau a'r amcanion.[29] Dywedodd y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"It's great for local growth if you can get those capital projects in place, because those are the long-term investments that you want underpinning. However, you cannot expect local authorities or anybody else—the private sector, whoever—to put in place capital projects in the timescales that are required without considerable investment in capacity and the time to be able to do that."*[30]

**35.** Roedd y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol a'r Athro Kevin Morgan ill dau o'r farn bod un maes cyfle o ran gwariant cyfalaf ar fuddsoddiadau eiddo a safleoedd, lle mae nifer o brosiectau sy'n 'barod i gychwyn'. Dywedodd yr Athro Morgan:

> *"if we wanted to make a real, tangible impact in this short period of time, my emphasis would be on having a real blitz on sites and premises. Because, if you think about sites and premises, they're well let, showing that the demand is there, but they cannot be delivered, as Meirion said earlier on, through simply recyclable finance, which*

[28] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig 29/01/26 Paragraff 346-348
[29] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18/12/25 Paragraff 59
[30] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18/12/25 Paragraff 42

> *we call 'evergreen funding'—we're not giving grants, we're doing loans so that we recycle the money".*[31]

**36.** Rhybuddiodd yr Athro Paul Boyle y byddai'n her cael prosiectau cyfalaf yn weithredol mewn pryd:

> *"if we look to various programmes, city deals and others, with the best will in the world, to get capital projects up and running in a short time is very, very challenging. So, we are very conscious, from our sector, that trying to solve the problems that we have here with a fund that is so focused on capital investment is going to be difficult; we're going to have to come up with imaginative ways to do that."*[32]

**37.** Aeth ymlaen i nodi ffyrdd y gallai ei sector gyflawni prosiectau cyfalaf o dan amserlen fyrrach:

> *"When we start thinking about capital, you're supposed to think about not only buildings and that type of capital, but there are also equipment-related opportunities, and certainly in universities we can spend that sort of money rather quickly, compared to building new facilities. So, there are ways to use capital. We can think of ways to introduce new programmes that we believe will attract and drive skills growth, but it's going to require some really careful thinking."*[33]

**38.** Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at rai o'r cyfleoedd y byddai cronfa gyfalaf drwm yn eu cynnig:

> *"one of the things that we can do with capital is invest it in research, development and innovation, for example. Those things, I think, can make a difference in productivity. Similarly, investment in businesses and supporting businesses can make differences in terms of productivity there as well."*[34]

[31] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18/12/25 Paragraff 59
[32] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paragraff 18/12/25 Paragraff 53
[33] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paragraff 18/12/25 Paragraff 54
[34] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paragraff 29/01/26 Paragraff 306

## Cyflawni uchelgeisiau'r gronfa

**39.** Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn nodi ei dull o werthuso effaith y Gronfa Twf Lleol:

> *Rydym yn disgwyl cytuno ar gyfres graidd o ofynion safonol a fydd yn berthnasol ar bob lefel o'r drefn gynllunio a darparu er mwyn sicrhau bod pethau'n gymharol ar draws Cymru a'r DU gyfan. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i ddangos sut mae ymyriadau ar bob lefel yn cyfrannu at ein nodau ar y cyd.*
>
> *Mae angen i ni fod yn gymesur o ran y data rydym yn ei gasglu a sicrhau ei fod wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n hanfodol i ddangos cynnydd tuag at ein canlyniadau ac i gasglu'r hyn sydd ei angen arnom yn unig. Y meini prawf pwysicaf fydd cyflawni yn erbyn canlyniad a ddymunir, ac mae angen i ni osgoi gosod targedau allbwn anhyblyg sy'n cymell ymddygiad gwrthnysig".*[35]

**40.** Gofynnodd y Pwyllgor i Ysgrifennydd y Cabinet am ei bwriad i osod amcanion clir a mesuradwy. Dywedodd ei swyddog:

> *"we'll be publishing the consultation findings in February, and the direction of travel, and there will then need to be a discussion with the UK Government on the investment plan before that's finally agreed. The intent would be to have outcomes and outcome indicators as part of that. I think what might need to follow after that is the more detailed monitoring and evaluation framework. Unfortunately, the pace at which we're having to try to do everything means we can't necessarily have everything ready on day one, but I think that's the sequencing we're working to. So, there is an intention to have a clear set of outcomes that we're working towards."*[36]

## Ein barn ni

Rydym yn siomedig nad yw Llywodraeth y DU wedi cydymffurfio â chais Llywodraeth Cymru am refeniw i ffurfio cyfran fwy o'r Gronfa, o leiaf i ddechrau.

[35] Llywodraeth Cymru, Cynigion o ran dull gweithredu ar gyfer Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru
[36] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paragraff 29/01/26 Paragraff 334

Nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan yr esboniad a roddodd Llywodraeth y DU i Ysgrifennydd y Cabinet, sy'n cynnwys cronfa buddsoddi cyfalaf ailgylchadwy ar wahân, ar gyfer Lloegr yn unig, ar gyfer awdurdodau strategol maerol. Nid yw'n ymddangos bod hyn yn gymhariaeth tebyg-am-debyg, ac rydym yn pryderu ei fod yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth y DU fel cyfiawnhad dros roi bargen waeth i Gymru a'r Alban na'r rhannau o Loegr y bydd y Gronfa Twf Lleol a'r Mayoral Revolving Growth Fund yn eu cefnogi. Rydym yn cefnogi galwadau i ailgydbwyso'r rhaniad yn y Gronfa o blaid refeniw i ddechrau. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol ei bod yn debygol o fod yn rhy hwyr ar hyn o bryd i ddylanwadu ar y penderfyniad hwn.

Rydym yn bryderus iawn am y posibilrwydd o golli swyddi a phrofiad sy'n debygol o ddigwydd o ganlyniad i symud o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i'r Gronfa Twf Lleol. Rydym hefyd yn ymwybodol iawn o rybudd yr Athro Morgan ein bod hefyd mewn perygl o golli arbenigedd, sgiliau a chof sefydliadol pobl sy'n gweithio ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin a allai gael eu diswyddo oherwydd y toriad mewn cyllid refeniw.

Gan ei bod yn amlwg nawr nad yw Llywodraeth y DU yn bwriadu mynd i'r afael â rhaniad refeniw-cyfalaf y cyllid, rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'r camau penodol y bydd yn eu cymryd i weithio gydag awdurdodau lleol i leihau colli swyddi a chadw'r sgiliau, yr arbenigedd a'r cof sefydliadol hynny.

Clywsom hefyd bryderon yn seiliedig ar dystiolaeth dda ynghylch yr heriau o gyflawni prosiectau cyfalaf effeithiol o fewn amserlen tair blynedd y Gronfa. Fodd bynnag, credwn ei bod yn bwysig canolbwyntio ar gyfleoedd, ac roeddem yn falch o glywed am feysydd posibl lle gall y Gronfa gael effaith gadarnhaol. Roedd gennym ddiddordeb ym marn yr Athro Boyle y byddai prifysgolion mewn sefyllfa dda i brynu offer ac, er bod y Gronfa'n creu rhywfaint o anhawster, efallai bod rhai atebion arloesol yn bodoli.

Roeddem yn awyddus i glywed am y cyfleoedd posibl ar gyfer ariannu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo mewn ardaloedd lle nad yw'r farchnad yn cyflawni. Fel y trafodwyd uchod, mae'n bwysig bod y Gronfa Twf Lleol yn cael ei defnyddio i gyflawni twf cymdeithasol a chymunedol cynaliadwy yn ogystal â chynyddu CMC a chynhyrchiant, felly byddem yn annog y rhai sy'n cyflwyno'r Gronfa i edrych yn ofalus ar yr opsiynau hyn.

Er mwyn olrhain cynnydd tuag at gyflawni uchelgeisiau'r Gronfa, bydd cyfres o dargedau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn seiliedig ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol clir a mesuradwy yn hanfodol, a dylai Llywodraeth Cymru

ddatblygu'r rhain ynghyd â fframwaith cadarn ar gyfer mesur cynnydd yn eu herbyn.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i ddiwygio'r rhaniad rhwng cyfalaf a refeniw o blaid cynyddu gwariant refeniw ar ddechrau'r Gronfa Twf Lleol er mwyn sicrhau pontio gwell.

**Argymhelliad 3.** O ystyried nad yw Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn bwriadu symud ar raniad refeniw-cyfalaf y cyllid, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r camau penodol y mae'n eu cymryd i weithio gydag awdurdodau lleol i leihau colli swyddi, sy'n deillio o ganlyniad i symud o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i'r Gronfa Twf Lleol ac i gadw arbenigedd, sgiliau a chof sefydliadol ynghylch datblygu economaidd.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r her meddwl greadigol ynghylch yr hyn y gellid gwario'r cyllid arno a sicrhau y gellir gwneud buddsoddiadau cyfalaf da mewn offer, adeiladau a safleoedd. Fodd bynnag, rhaid i nod cyffredinol gwariant y Gronfa Twf Lleol fod i yrru twf cymdeithasol ac economaidd trwy ddatblygu economaidd cynaliadwy.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cyfres o dargedau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer y Gronfa, yn seiliedig ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol clir a mesuradwy. Dylai hefyd ddatblygu fframwaith cadarn ar gyfer mesur cynnydd.

# 4. Cyflwyno'r Gronfa

**41.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig bod gan y Gronfa Twf Lleol elfennau ar gyfer Cymru gyfan, elfennau rhanbarthol ac elfennau lleol. Mae'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid i ganfod nifer o 'ymyriadau cenedlaethol', a bydd yn asesu'r achosion busnes a gyflwynir gan y rhain, a fydd yn cael eu cynllunio a'u cyflawni gan "y sefydliad mwyaf priodol". Gall hyn gynnwys y sectorau gwirfoddol, addysg bellach ac addysg uwch. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn gofyn am farn ar ba fathau o brosiectau sydd angen dull gweithredu Cymru gyfan.[37]

## Lefelau cyflwyno

**42.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig, yn dilyn y cyfnod pontio, y bydd y pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig yn arwain y gwaith rhanbarthol. Byddai cyllid yn cael ei ryddhau ar ôl i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ddatblygu gweledigaeth ddeng mlynedd a chynllun cyflawni tair blynedd, y bydd angen cytuno arnynt gyda Llywodraeth Cymru.[38]

**43.** Tynnodd yr Athro Kevin Morgan sylw at y diffyg capasiti i gyflawni mentrau datblygu economaidd effeithiol ar draws gwahanol lefelau o lywodraeth:

> *"I would say we've got capacity shortcomings at each of those levels. Let's remember: all delivery at the end of the day—all delivery—is local, whether it's been sanctioned by the national, by the UK, by the national in Wales, or indeed by the region, the new regions, as it were. It's all locally delivered and the people who are delivering it have been denuded of capacity for the past 15 years, through austerity budgeting and whatever, and much of that capacity has been hollowed out".*[39]

**44.** Clywodd yr Aelodau amrywiaeth o safbwyntiau ar y gwahanol rolau y dylai prosiectau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol eu chwarae wrth reoli a chyflwyno'r gronfa. Roedd awdurdodau lleol eisiau gweld mwy o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddarpariaeth leol. Nid oedd y Cynghorydd Jake Berriman, Arweinydd Cyngor Sir

[37] Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Cynigion ar gyfer cyflwyno Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru
[38] Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Cynigion ar gyfer cyflwyno Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru
[39] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18/12/25 Paragraff 48

Powys, wedi gweld tystiolaeth ddigonol o'r dull gweithredu o'r gwaelod i fyny. Dywedodd wrth yr Aelodau bod angen cryfhau hynny gydag awdurdodau lleol yn arwain yn eu hardaloedd:

> *"They are the democratically elected representative bodies for their areas, and obviously, each of those have their own economic development plans, their local development plans et cetera. And they're very clear about what those needs are. They knit them together at a regional level, and that's absolutely fine. But that's the way that that should operate, where we add value at each level."*[40]

**45.** Cododd y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol bryderon am Lywodraeth Cymru yn 'brigdorri' cyllid. Roedd yn teimlo y byddai'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhaglenni cenedlaethol pwysig, fel Busnes Cymru, ond rhybuddiodd y byddai'r toriad hwn yn cymryd arian oddi wrth y prosiectau ar lawr gwlad a:

> *"if a Local Growth Fund is to have any meaning at all, then it should be really focused on the local rather than the national."*[41]

**46.** Roedd y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol yn cefnogi darpariaeth leol ond tynnodd sylw at rôl gydlynu Cyd-bwyllgorau Corfforedig:

> *"The Shared Prosperity Fund in Wales was actually managed by the local authorities themselves. Although the funding came directly to individual authorities, they set up by their own choice collaborative arrangements, mostly at the regional level, at the CJC level, to ensure that they minimised duplication, enhanced collaborative delivery and got the monitoring and reporting in a way that was fit for purpose."*[42]

[40] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18/12/25 Paragraff 176
[41] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18/12/25 Paragraff 67
[42] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18/12/25 Paragraff 109

**47.** Nododd fod system ariannu flaenorol yr UE, a oedd yn cynnwys prosiectau'n adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru[43] yn rhy fiwrocrataidd.[44] Dywedodd wrth yr Aelodau:

> *"The delivery and management of the Local Growth Fund should at least be devolved down to the CJCs and they should decide how projects are handled at the individual local authority level. If you don't do that with the CJCs, why bother having the CJCs in the first place?"*[45]

**48.** Roedd FSB Cymru yn cefnogi cyflawni rhanbarthol ond teimlai hefyd bod haen genedlaethol yn briodol, yn ogystal â symud i drefniadau newydd i gyflawni canlyniadau gwell:

> *"This is about moving things to a much more regional basis than they were with SPF, and we think that that's the right direction of travel. It's also about having national programmes within that, and again we think that that's the right direction of travel."*[46]

**49.** Cafodd daearyddiaeth economaidd Cymru ei disgrifio gan FSB Cymru fel ychydig o lanast oherwydd gwahanol rolau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol, Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ac eraill.[47] Tynnodd sylw hefyd at bwysigrwydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cynnwys y sector preifat mewn trafodaethau ynghylch cyflawni rhanbarthol.[48]

**50.** Roedd yr Athro Boyle hefyd yn cefnogi'r dull aml-lefel, gan nodi'r diwydiant lled-ddargludyddion fel enghraifft lle byddai hyn yn bwysig:

> *"on the one hand, we have to drive local, regional economic growth, but some of the ways of doing that are actually national in delivery… I use the example of semiconductors—this has a massive local economic impact in south Wales, along the whole of the south Wales corridor, and in many of the other industries that support semiconductors, but it's actually an internationally, or even globally,*

[43] Adran o Lywodraeth Cymru a weithiodd yn agos hefyd gyda'r Comisiwn Ewropeaidd i weinyddu cyllid yr UE.
[44] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18/12/25 Paragraff 109
[45] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18/12/25 Paragraff 110
[46] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18/12/25 Paragraff 305
[47] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18/12/2025, Paragraff 270
[48] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18/12/2025, Paragraff 311

> *important industry and cluster. So, I think there are things that can really drive local growth at the same time as being of national or even international importance. And getting our strengths lined up is really, really important."*[49]

**51.** Cwestiynodd barodrwydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gyflwyno'r Gronfa:

> *"There's a lot of emphasis on regional research, innovation and skills, which I personally think is a good thing, but we've got to make sure that the CJCs are well informed about the opportunities that exist to actually make a difference in those areas. It's not necessarily what CJCs were set up to do, so they're going to really need to bring in people who really do understand that and can help them shape programmes that will make a difference going forward."*[50]

## Risg o ddwy raglen

**52.** Fel y mae'r cynnig yn sefyll, bydd model cyflwyno presennol y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn parhau am flwyddyn gyntaf y Gronfa ac yna bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cymryd drosodd ym mlwyddyn dau. Rhybuddiodd Cadwyn Clwyd:

> *"it's vital that we don't end up with two mini programmes, so we lose the benefits of that seamless three-year programming period. I think that's been highlighted as well in terms of how SPF has been delivered, especially the last 12 months, where there's been a very concise and short delivery window."*[51]

## Rôl y Cyd-bwyllgorau Corfforedig

**53.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi dewis Cyd-bwyllgorau Corfforedig oherwydd:

> *"[CJCs] were really well placed, because the purposes directly align with the Local Growth Fund model. Strategic economic development, regional transport planning and land use planning are going to be*

[49] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18/12/25 Paragraff 72
[50] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18/12/25 Paragraff 37
[51] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18/12/25 Paragraff 345

> *core levers that will be required to underpin regional growth and will be crucial to the success of the Local Growth Fund. You mentioned not reinventing the wheel; that is actually why we've decided to propose that CJCs would be the correct delivery model."*[52]

**54.** Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Chymru eisoes yn ariannu pedair Bargen Twf Dinesig a Rhanbarth a sefydlwyd i sbarduno twf economaidd a chreu swyddi. At ei gilydd, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fuddsoddi £791 miliwn yn y pedair bargen dros 10 i 15 mlynedd ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi dros £795 miliwn dros 15 i 20 mlynedd.[53] Ac eithrio Tyfu Canolbarth Cymru, mae'r tair bargen twf arall yn cael eu cyflwyno gan eu Cyd-bwyllgorau Corfforedig priodol.

**55.** Y llynedd, cynhaliodd y Pwyllgor 'archwiliad iechyd' ar gynnydd pob un o'r bargeinion. Yn dilyn hyn, ysgrifennodd y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gan godi sawl pryder difrifol ynglŷn â chyflawni'r Bargeinion. Er y dylid nodi bod Bargeinion unigol wedi cyflawni gwahanol lefelau o lwyddiant, roedd y materion a godwyd yn cynnwys niferoedd isel iawn o swyddi a grëwyd a diffyg buddsoddiad yn y sector preifat. Dywedodd Uchelgais Gogledd Cymru wrth y Pwyllgor mai dim ond 35 o swyddi yr oeddent wedi'u creu.[54] Eu targed yw creu 4,000 o swyddi newydd.[55]

**56.** Pan gafodd ei holi gan y Pwyllgor ynghylch perfformiad Cyd-bwyllgorau Corfforedig, cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod gwahanol safbwyntiau ymhlith llywodraeth leol ynghylch Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r defnydd ohonynt ar gyfer y Gronfa Twf Lleol. Fodd bynnag, dywedodd mai dyma yw'r hyn mae wedi'i gynnig.[56]

> *"[CJCs] have regional growth and regional transport plans. Each of those will have embedded monitoring and evaluation frameworks. You will have strategic development plans also being developed at the CJC level. In that sense, you have the tools and you've got a structure in which delivery can take place. But I absolutely recognise*

---

[52] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 29/01/26 Paragraff 366
[53] Llywodraeth Cymru Memorandwm cyd-ddealltwriaeth: defnyddio cyllid Llywodraeth y DU ar gyfer y bargeinion twf dinesig a rhanbarth
[54] Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Lywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru Bargeinion Twf Dinesig a Rhanbarth Cymru dyddiedig 17 Medi 2025
[55] Uchelgaisgogledd.cymru - y Cynllun Twf
[56] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paragraff 29/01/26 Paragraff 370

> *there are different views amongst local government and amongst colleagues on this particular point as well."*[57]

**57.** Cododd yr Aelodau bryderon hefyd am ddiffyg ymgysylltiad gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig â rhanddeiliaid y sector preifat. Dywedodd un o swyddogion Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod diffyg ymgysylltiad wedi dod i'r amlwg yn yr ymgynghoriad o ran yr angen i'w gryfhau drwy'r model Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ac roedd o'r farn bod cael y flwyddyn bontio yn darparu'r amser hwnnw i wneud yn siŵr y gellir ymgorffori'r amodau a'r trefniadau hynny.[58]

## Ein barn ni

Rydym yn falch o weld darpariaeth ledled Cymru, yn rhanbarthol ac yn lleol, a goruchwyliaeth strategol Llywodraeth Cymru o'r Gronfa. Mae'r dull hwn yn bodloni sawl argymhelliad o'n hadroddiad 'Cyllid Datblygu Rhanbarthol ar ôl gadael yr UE'.[59]

Rydym yn cydymdeimlo â'r ddadl na ddylem ailddyfeisio'r olwyn o ran rheoli agwedd ranbarthol y Gronfa Twf Lleol. Credwn ei bod yn bwysig peidio â chreu biwrocratiaeth ychwanegol a fydd yn defnyddio adnoddau rheng flaen hanfodol. Fodd bynnag, mae gennym bryderon dwfn ynghylch gallu Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gyflawni elfennau rhanbarthol y Gronfa Twf Lleol.

Yn dilyn ein gwiriad iechyd yn 2025, gwnaethom ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gyda phryderon difrifol ynghylch perfformiad rhai o Fargeinion Twf Cymru. Mae tair o'r pedair bargen yn cael eu rhedeg gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig, ac er bod perfformiad yn amrywio, mae'n hanfodol nad yw'r Gronfa Twf Lleol yn dioddef yr un dynged â bargen sy'n perfformio'n wael. Rydym hefyd yn pryderu ynghylch perfformiad rhai o'r bargeinion wrth gyfeirio buddsoddiad tuag at ardaloedd mwy difreintiedig yn economaidd yn eu rhanbarth.

Felly, dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth gref i ddulliau amgen o gyflwyno'r Gronfa Twf Lleol ar lefel ranbarthol cyn cwblhau ei chynllun buddsoddi ar gyfer y gronfa. Os bydd yn penderfynu bwrw ymlaen â defnyddio'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel y dull ar gyfer cyflawni rhanbarthol, mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau y gall ddwyn Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gyfrif am eu

[57] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paragraff 29/01/26 Paragraff 374
[58] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paragraff 29/01/26 Paragraff 378
[59] Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig, Adroddiad ar Gyllid datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE

perfformiad mewn modd cryf ac effeithlon. Dylai wneud hyn drwy ddatblygu amcanion clir ac uchelgeisiol, a monitro cynnydd tuag at gyflawni'r rhain drwy asesu perfformiad yn rheolaidd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol penodol.

Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar bryderon ynghylch sut mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ymgysylltu â'r sector preifat a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei wella os yw'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig am gyflwyno'r Gronfa.

**Argymhelliad 6.** Mae gan y Pwyllgor bryderon difrifol ynghylch gallu Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gyflwyno'r Gronfa Twf Lleol. Mae hyn oherwydd ein gwaith blaenorol yn datgelu diffygion mawr o ran cyflawniad rhai Cyd-bwyllgorau Corfforedig o raglenni datblygu economaidd eraill. Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried yn gryf unrhyw fodelau amgen a awgrymir yn yr ymgynghoriad cyhoeddus fel dewis arall yn lle defnyddio Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar gyfer cyflawni ranbarthol. Gan nad yw'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi profi eu gallu i gyflawni rhaglenni economaidd mewn ffordd sy'n mynd i'r afael ag amddifadedd economaidd eto, os bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio fel y dull ar gyfer cyflwyno elfennau rhanbarthol y gronfa, bydd angen goruchwyliaeth a chyfarwyddyd ychwanegol ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig i sicrhau eu bod yn datblygu dulliau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ardaloedd o amddifadedd, ac nid canolbwyntio ar 'enillion hawdd'. Fel rhan o hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y gellir monitro eu perfformiad yn effeithiol drwy asesu eu cynnydd yn rheolaidd yn erbyn canlyniadau pendant, mesuradwy.

# 5. Targedu cyllid i sicrhau'r effaith fwyaf posibl

**58.** Clywodd yr Aelodau bryderon ynglŷn â sicrhau bod cyllid yn cael ei ddyrannu i gefnogi'r ardaloedd sydd ei angen fwyaf. Tynnodd yr Athro Kevin Morgan sylw at y canlynol:

> *"one of the developmental mysteries of development in Wales. Why is it … that the northern Valleys initiative budget can't be spent? In one of the poorest areas … in western Europe, you have a budget committed to regenerating the northern Valleys, and it can't be spent."*[60]

**59.** Tynnodd Meirion Thomas sylw hefyd at yr angen i feddwl yn wahanol am fuddsoddiadau yn y Cymoedd gogleddol:

> *"If we only look for financial return, then we're never going to get investment into the northern Valleys. We have to completely turn our assumptions around our return-on-investment calculations into an economic development return on investment, because, when the public sector puts money into property sites in the south Wales Valleys, the private sector may well make the first level of return out of it in financial return, because they build the property and they let it, they get tenants in et cetera. But the public purse makes a much larger return on investment if companies come in, fill those factories, employ people out of the local workforce, provide them with skills, provide them with certainty, allow them to pay their mortgages in their communities, allow them to go to the local shops et cetera. So, you get a much greater economic development return. Unfortunately, though, it doesn't easily appear on a balance sheet".*[61]

## Heriau gwledig

**60.** Dywedodd y Cynghorydd Jake Berriman wrth yr Aelodau fod angen dull wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd wrth yr Aelodau bod yn rhaid i ni ystyried anghenion ein hardaloedd

[60] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paragraff 18/12/25 Paragraff 25
[61] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paragraff 18/12/25 Paragraff 51

unigol, a bod yr ardaloedd hyn yn eithaf annhebyg a gwahanol ledled Cymru. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"European Structural Funds were directed at impoverished parts of Wales previously that were deeply rural areas, and, as such, what we would argue is that we need to respond to the needs of our poor regions quite differently and distinctly."*
>
> *"We've got to be cautious about using single drivers there, but, of course, we have the shared aspirations to do this, both within our regions and across regions, and we might welcome too the distinction between national, regional, local and, of course, for us in Powys in particular, cross-border."*[62]

## Dosbarthu cyllid

**61.** Dywedodd FSB Cymru wrth yr Aelodau nad oedd ganddo'r ateb perffaith ar gyfer sut i rannu cyllid rhwng rhanbarthau, ond, os mai cynhyrchiant yw'r mesur gyrru dan sylw, dywedodd bod yn rhaid i hynny fod yn un o'r pethau allweddol y mae penderfyniadau'n seiliedig arno. Cytunodd Energy Box ac ychwanegodd y canlynol:[63]

> *"If you're going to apply funds, apply it where you can get the best return economically: economically means the jobs; it means the output. Just sort of looking across Wales and saying, 'Well, we've got this much money, we're just going to divide it by the number of authorities': complete and utter waste of time. Identify where the money would be best used, and then put it there and put it for a purpose."*[64]

**62.** Rhybuddiodd Cadwyn Clwyd fod angen taro cydbwysedd rhwng cael yr enillion gorau a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb:

> *"Mae yna rai ardaloedd sydd yn lagio tu ôl o ran datblygiad a ballu. So, mae eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni'n deg gyda chymunedau ar draws Cymru a'n bod ni'n cofio'r agenda equalities, felly. Dwi'n*

[62] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paragraff 18/12/25 Paragraff 154
[63] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paragraff 18/12/25 Paragraff 326
[64] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paragraff 18/12/25 Paragraff 328

> *meddwl bod y pwynt y gwnes i wneud ar ddechrau'r sesiwn ynglŷn â thlodi gwledig yng nghyd-destun mynediad at wasanaethau yn pwysleisio hynny, felly; lle mae eisiau balans rhwng y returns gorau a hefyd gwneud yn siŵr ein bod ni'n taclo inequalities yn y rhaglen."*[65]

**63.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor ei bod wedi gorfod rhoi haenau ar sefyllfa economaidd-gymdeithasol Cymru hefyd, i geisio sicrhau bod yr hyn y mae'n ei wneud mewn gwirionedd yn caniatáu i bethau gael eu targedu lle mae angen y buddsoddiad.[66] Eglurodd hefyd:

> *"we're currently considering the methodology for funding from years 2 to 3 onwards, and this is subject to Cabinet discussion. So just to give you a flavour, but to reassure you that the Welsh Index of Multiple Deprivation is an important factor in terms of the kind of things that we would want to be looking at for potential methodologies. But I probably shouldn't go further than that today because decisions are yet to be made."*[67]

**64.** Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar gynhyrchiant ac anweithgarwch economaidd. Awgrymodd y dylai hyn roi'r lefel honno o sicrwydd bod hynny'n flaenoriaeth uchel ar gyfer y cyllid hwn: i gefnogi pobl i gael gwaith ac i gael gwaith da.[68]

**65.** Ychwanegodd un o swyddogion Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"We are also looking at modelling around productivity variations, and you'll see that mid Wales and parts of west Wales, in particular, are much further behind on productivity levels. We're also looking at indicators around sparsity, rurality as also a proxy for lack of agglomeration and a lack of density. So, those are the kinds of things that are being modelled, and Ministers will have a series of options to consider on that basis."*[69]

[65] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paragraff 18/12/25 Paragraff 334
[66] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paragraff 29/01/26 Paragraff 320
[67] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paragraff 29/01/26 Paragraff 324
[68] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paragraff 29/01/26 Paragraff 326
[69] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paragraff 29/01/26 Paragraff 374

## Ein barn ni

Rydym yn cytuno â Cadwyn Clwyd bod angen cydbwysedd rhwng yr enillion gorau a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y rhaglen. Rhaid i gyllid o'r Gronfa Twf Lleol gael ei dargedu lle mae ei angen fwyaf i helpu i greu economi gryfach, yn hytrach na chanolbwyntio ar ardaloedd lle mae'r farchnad eisoes yn darparu swyddi, twf a ffyniant cymharol. Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd a goruchwyliaeth glir i'r rhai sy'n ymwneud â chyflawni elfennau rhanbarthol a lleol y Gronfa Twf Lleol er mwyn sicrhau bod arian yn cael ei dargedu yn y modd hwnnw. Dylid gwario'r Gronfa Twf Lleol lle mae'r angen mwyaf am arian, a lle y bydd yn sicrhau nid yn unig cynnydd mewn CMC ond hefyd llesiant cymdeithasol a chymunedol.

Credwn, wrth benderfynu ar y fethodoleg ar gyfer dyrannu arian ym mlwyddyn dau a thri, y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn chwarae rhan allweddol wrth benderfynu ar ddyraniadau i ardaloedd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydymdeimlo ag anghenion ardaloedd gwledig, sydd yn aml â heriau penodol sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau, rhwystrau i gyflogaeth, a chynhyrchiant. Bydd angen ystyried y rhain hefyd wrth ddyrannu arian.

**Argymhelliad 7.** Wrth ddatblygu ei dull o ddyrannu cyllid, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid yn cael ei gyfeirio at y mannau lle mae'r angen mwyaf dybryd, a dylai roi arwydd clir i'r rhai sy'n darparu cyllid mai dyma'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Dylai Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru chwarae rhan allweddol yn y fethodoleg ar gyfer dyrannu cyllid ar lefel ranbarthol, yn ogystal â sicrhau bod dyraniadau'n cefnogi ardaloedd gwledig o amddifadedd. Dylid defnyddio'r Mynegai hefyd i helpu i olrhain cynnydd a chanlyniadau buddsoddiadau'r Gronfa Twf Lleol.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **18 Rhagfyr 2025** | **Meirion Thomas, Cyfarwyddwr Cymru,**<br>Cynghrair Cymunedau Diwydiannol<br>**Yr Athro Kevin Morgan, Athro Llywodraethiant a Datblygu - Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio,**<br>Prifysgol Caerdydd<br>**Yr Athro Paul Boyle, Is-Ganghellor (Prifysgol Abertawe),**<br>Prifysgolion Cymru<br>**Y Cynghorydd Jake Berriman,**<br>Arweinydd Cyngor Sir Powys a Chadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth<br>**Y Cynghorydd Rob Stewart,**<br>Arweinydd Cyngor Abertawe a Chadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru<br>**Brian Hughes, Sylfaenydd,**<br>Energy Box<br>**Joshua Miles, Pennaeth Cymru,**<br>FSB Cymru (Ffederasiwn Busnesau Bach)<br>**Lowri Owain, Rheolwr,**<br>Cadwyn Clwyd |
| **29 Ionawr 2026** | **Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Liz Lalley, Cyfarwyddwr - Strategaeth Economaidd a Thyfu Gwyrdd,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Thomas Smithson, Dirprwy Gyfarwyddwr - Strategaeth a Rheoleiddio Economaidd**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol

Rhoddodd y sefydliad a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig ar wefan y Pwyllgor.

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Cynghrair y Cymunedau Diwydiannol | 9 Chwefror 2026 |